Cydganwn foliant rhwydd

Caneuon Ffydd: Rhif 1

Cydganwn foliant rhwydd
i'n Harglwydd, gweddus yw;
yn nerth ein hiechyd llawenhawn,
mawr ydyw dawn ein Duw.

O deuwn oll ynghyd
yn unfryd ger ei fron,
offrymwn iddo ddiolch clau
mewn salmau llafar, llon.

Cyduned tonnau'r môr
eu mawl i'n Iôr o hyd,
a rhoed y ddaear fawr a'i phlant
ogoniant iddo i gyd.

O plygwn bawb ei lin
o flaen ein Brenin mawr;
addolwn ef, ein dyled yw,
'rŷm arno'n byw bob awr.

GWILYM HIRAETHOG, 1802–83

MYFYRDOD

Weithiau bydd angen anogaeth arnom er mwyn ein cael i ysbryd o addoliad a mawl. Does dim anogaeth well i'w chael mewn gwirionedd na chwmni brodyr a chwiorydd eraill yn y ffydd, a'r weithred o ddyrchafu mawl i Dduw mewn cynulleidfa. 'Mawrygwch yr Arglwydd gyda mi, a dyrchafwn ei enw gyda'n gilydd', meddai'r Salmydd (Salm 34:3), a dyna'n union mae Gwilym Hiraethog yn ein hannog i'w wneud hefyd: 'Cydganwn foliant rhwydd i'n Harglwydd.' Addas felly yw gosod yr emyn hwn yn gyntaf ar ein cyfer yn *Caneuon Ffydd*, am mai dyma ddylai ein blaenoriaeth gyntaf fod wrth inni gydgyfarfod i addoli'r Arglwydd, sef gogoneddu ei enw, llawenhau ynddo, a diolch iddo am ei

ddaioni tuag atom. Oherwydd os mai felly roedd hi yn nydd y Salmydd, cymaint mwy o reswm sydd gennym i ddyrchafu ei enw gyda'n gilydd fel Eglwys Gristnogol. Oherwydd bod gennym Arglwydd sydd wedi ei aberthu ei hun trosom ni ac sydd gyda ni bob amser trwy ei Ysbryd Glân. Anogir ni gan awdur y Llythyr at yr Hebreaid i 'ystyried sut y gallwn ennyn yn ein gilydd gariad a gweithredoedd da, heb gefnu ar ein cydgynulliad ein hunain, yn ôl arfer rhai, ond annog ein gilydd, ac yn fwy felly yn gymaint â'ch bod yn gweld y Dydd yn dod yn agos' (Heb. 10: 24–25).

Emyn i'w ganu ar ddechrau oedfa ar fore Sul neu pryd bynnag y down at ein gilydd fel pobl Dduw i'w addoli y dylai hwn fod felly, er mwyn ein hatgoffa y dylai popeth a wnawn yn ystod y gwasanaeth, pa bynnag ffordd yr awn ni o'i chwmpas hi i'w drefnu a pha bynnag ffurf y rhoddwn ni arno, ein cyfeirio tuag at Dduw. Dylem ein hatgoffa ein hunain o'n dyled iddo am iddo ef ein galw ni ynghyd trwy ei ras a'i fod ef ei hun yn bwysicach na dim amdanom ni ein hunain.

Un o nodweddion pwysicaf addoliad yw diolchgarwch: 'diolchaf i ti gerbron y gynulleidfa fawr', meddai'r Salmydd eto (35:18). Y dull a ddefnyddiwyd yng nghyfnod y Salmydd ac yn yr Hen Destament yn gyfan er mwyn mynegi diolch oedd canmol daioni person wrth eraill, a hynny am nad oedd gair penodol yn cyfleu yr hyn a ddeallwn ni wrth 'diolch'. Roedd yn rhaid canmol y person, nid yn ei wyneb, ond gerbron eraill. Yn yr un modd fe fyddid yn diolch i Dduw yn gyhoeddus am ei ras a'i gariad. Eto mae'r diolch i'w offrymu iddo 'mewn salmau *llafar,* llon' yn ôl ein hemynydd, a phawb sydd yn gwrando, yn sgil hynny, yn cael clywed am ei ddaioni a'u hannog i ymuno yn y mawl a'r diolchgarwch. 'Rhoed y ddaear fawr a'i phlant ogoniant iddo i gyd.'

GWEDDI

O Dad, mor dda wyt ti ac mor rhyfeddol yw dy gariad tuag atom nes na allwn ni ond dod ynghyd i ganu'th glodydd gerbron eraill a cherbron y byd. Teilwng iawn wyt ti o fawl, Arglwydd. Bydded gogoniant i'th enw. Amen.